**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Swyddog Cyswllt:
Nicola Gittins on 01352 702345
nicola.gittins@flintshire.gov.uk

At: Bob Aelod o'r Cyngor

Dydd Mercher, 20 Medi 2023

Annwyl Gynghorydd,

**RHYBUDD O GYFARFOD HYBRID**
**CYNGOR SIR Y FFLINT**
**DYDD MAWRTH, 26AIN MEDI, 2023 1.00 PM**

Yn gywir

Steven Goodrum
Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

Sylwch: Gellir mynychu'r cyfarfod hwn naill ai wyneb yn wyneb yn Siambr Cyngor yr Arglwydd Barry Jones, Cyngor Sir y Fflint, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint neu ar-lein.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd y ffrydio byw yn dod i ben pan fydd unrhyw eitemau cyfrinachol yn cael eu hystyried. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

# R H A G L E N

## 1 **CYFLWYNIADAU**

**Pwrpas:** Cydnabod Gwobrau:

1. Gwobr FreePay - Cyllid Ocsigen
2. Dyfarniad “Pensiynau a Buddsoddiadau LGC - Seren y Dyfodol”.

## 2 **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

## 3 **DATGAN CYSYLLTIAD**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori’r Aelodau yn unol a hynny.

## 4 **COFNODION** (Tudalennau 5 - 18)

**Pwrpas:** I gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin 2023 fel cofnod cywir.

## 5 **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Pwrpas:** Derbyn unrhyw gyhoeddiad fel y'i dosbarthwyd.

## 6 **DEISEBAU**

**Pwrpas:** Mae hwn yn gyfle i Aelodau’r Cyngor gyflwyno deisebau ar ran pobl yn eu ward. Unwaith y byddant wedi dod i law, caiff deisebau eu pasio i'r Prif Swyddog priodol ar gyfer gweithredu ac ymateb iddynt.

## **PRIF EITEMAU BUSNES**

## 7 **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2022/23** (Tudalennau 19 - 68)

Adroddiad Prif Weithredwr

**Pwrpas:** Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad 2022/23 cyn ei gyhoeddi.

## 8 **RHESTR TALIADAU 2023/24** (Tudalennau 69 - 84)

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu)

**Pwrpas:** Er mwyn i'r Cyngor gymeradwyo'r rhestr o gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Aelodau etholedig a chyfetholedig ar gyfer 2023/24 i'w chyhoeddi, nawr mae pob penodiad wedi'i wneud.

| | |
|---|---|
| 9 | **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2022/2023** (Tudalennau 85 - 96) |

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu) -

**Pwrpas:** Derbyn Adroddiad Blynyddol cyntaf y Pwyllgor Safonau.

| | |
|---|---|
| 10 | **RHYBUDD O GYNNIG** (Tudalennau 97 - 100) |

**Pwrpas:** Mae’r eitem hon i dderbyn unrhyw Rybudd o Gynnig: mae dau wedi’u derbyn ac wedi’u hatodi i’r rhaglen.

**ER GWYBODAETH**

| | |
|---|---|
| 11 | **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD** |

**Pwrpas:** Derbyn Cwestiynau Cyhoeddus ar gyfer yr eitem hon: doedd dim wedi dod I law erbyn y dyddiad cau.

| | |
|---|---|
| 12 | **CWESTIYNAU** (Tudalennau 101 - 108) |

**Pwrpas:** Nodi'r atebion i unrhyw gwestiynau a gyflwynwyd yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 9.4(A) y Cyngor Sir. derbyniwyd tri erbyn y dyddiad cau ac maent ynghlwm.

Mae cwestiwn brys wedi dod i law, a dderbyniwyd yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, gan Arweinydd y Cyngor y cyfeiriwyd y cwestiwn ato a Chadeirydd y Cyngor. Atodir y cwestiwn brys hefyd.

| | |
|---|---|
| 13 | **CWESTIYNAU GAN AELODAU AM GOFNODION PWYLLGORAU** |

Ystyried unrhyw faterion a godwyd gan yr Aelodau o Gofnodion cyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgorau Craffu a Phwyllgorau eraill, ynghyd ag unrhyw gwestiynau a godwyd dan Adran 4.20 Cyfansoddiad y Cyngor. Os bydd angen, mae’n bosib cael gafael ar gopïau o Gofnodion yr amrywiol gyfarfodydd a gynhaliwyd ers cyfarfod arferol diwethaf y Cyngor, sydd wedi’u cymeradwyo a’u cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod, drwy fynd i’r Adran Pwyllgorau a Gwasanaethau’r Aelodau.

***Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw’r cyfarfod yn para’n hirach na dwy awr.***